

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Hen Destament
Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH

I Samuel
16: 1-13




ADNOD
ALLWEDDOL
I Samuel 16: 7

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 1 Dewis brenin

Pe bai'n rhaid i chi ddewis dyn i fod yn frenin, pa fath berson fydddech chi'n ei ddewis? Rhywun tal, golygus a chryf? Roedd Duw wedi dweud wrth Samuel am fynd i Fethlehem gan Ei fod wedi dewis un o feibion Jesse i fod yn frenin arnynt.

Roedd Samuel yn broffwyd - rhywun fyddai'n adrodd wrth y bobl beth oedd gan Dduw i'w ddweud wrthynt!



C Beth oedd enw'r proffwyd? S _____

I ble y dywedodd Duw wrtho am fynd? B _____



Pan welodd Samuel Eliab, mab hynaf Jesse, oedd yn fachgen cryf a golygus, dywedodd wrtho'i hun, "Rhaid mai dyma'r dyn a ddewiswyd gan Dduw".

Ond yna, clywodd Duw yn dweud wrtho, "Ar olwg person y bydd pobl yn edrych, ond mae'r Arglwydd yn edrych ar y galon". Nid Eliab oedd dewis Duw, felly.

C Beth ddywedodd Duw wrth Samuel?

“Yr h___ sydd yn y g___ a w___ meidrolyn, ond mae'r
A___ yn gweld beth sydd yn y g___.”

8

Yna, gwelodd Samuel yr ail fab, sef Abinadab. “Nid hwn chwaith ddewisodd yr Arglwydd,” meddai Samuel. Galwodd Jesse ar ei saith mab. Pan oedd Samuel wedi gweld pob un o'r saith, dywedodd “Ni ddewisodd yr Arglwydd yr un o'r rhai hyn.”

2

C Sawl un o feibion Jesse welodd Samuel? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.


1 3 5 7 9



Druan o Samuel, rhaid ei fod yn meddwl iddo wneud camgymeriad! Ond deallodd fod un mab arall gan Jesse. Roedd Dafydd allan yn y caeau yn gofalu am y defaid. “Anfonwch amdano,” meddai Samuel. Cyn gynted ag y daeth Dafydd i mewn, dywedodd Duw, “Dyma'r un.” Arllwysodd Samuel olew am ben Dafydd. Roedd 'eneinio' gydag olew fel hyn yn arwydd y byddai Dafydd yn frenin, un diwrnod.

C Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau canlynol yn y Grid Geiriau.

1. Roedd Dafydd yn y _____ cyn i Samuel ei alw.
2. Roedd Dafydd yn gofalu am yr rhain.
3. Aeth Samuel i Fethlehem i ddewis _____ newydd.
4. Pwy ddewiswyd gan Dduw i fod yn frenin?



8

Dewisodd Duw Ddafydd oherwydd roedd Ef yn gwybod sut un oedd e mewn gwirionedd. Pan fyddwn ni'n edrych ar bobl, dim ond eu golwg ar y tu allan welwn ni. Hyd yn oed os byddwn yn edrych ar luniau pelydr-x, fedrwn ni ddim gweld beth mae pobl yn ei feddwl. Duw'n unig sy'n gallu edrych ar y galon ac sy'n gallu gweld yn union sut rai ydym ni mewn gwirionedd.



DARLLENWCH
I Samuel
17: 1-31



ADNOD
ALLWEDDOL
I Samuel 17: 26

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 2 Ymladd Goliath

Roedd problem gan yr Israeliaid. Roedden nhw'n rhyfela yn erbyn y Philistiaid. Er mwyn penderfynu pwy fyddai'n ennill y frwydr, roedd rhaid i un o'r Israeliaid ymladd yn erbyn un o'r Philistiaid. Yr unig anhawster oedd mai cawr o'r enw Goliath oedd y dyn fyddai'n ymladd ar ran y Philistiaid.

Roedd hwn dros dri metr o daldra! Pwy o blith yr Israeliaid fyddai'n meiddio ymladd yn ei erbyn?

Safai'r Philistiaid mewn rhes ar ben un bryn a ffurfiodd yr Israeliaid linell ar fryn gyferbyn. Roedd dyffryn rhwng y ddwy fyddin.

C Llanwch y llythrennau sydd ar goll.

Pwy oedd yn ymladd yn erbyn yr Israeliaid?

Y Ph _ _ _ _ _

Pwy oedd y cawr oedd yn brwydro drostynt?

G _ _ _ _ _


Bob dydd, heriai Goliath yr Israeliaid i anfon dyn i ymladd yn ei erbyn. Bob tro y clywai'r Israeliaid ei lais, deuai ofn mawr arnynt, ac ar y Brenin Saul hefyd. Addawodd y brenin roi gwobr sylweddol i unrhyw un fyddai'n barod i ymladd Goliath.

Ym Methlehem, roedd Dafydd yn gofalu am ei ddefaid. Roedd tri o'i frodyr oddi cartref yn ymladd yn y frwydr.


C Beth oedd Dafydd yn ei wneud?

Roedd yn g _ _ _ _ _ am


y d _ _ _ _ _ .



4



4



Un diwrnod, dywedodd tad Dafydd wrtho am fynd i weld sut roedd ei dri brawd yn dod ymlaen.

Pan gyrhaeddodd Dafydd maes y frwydr, clywodd Goliath yn gweiddi ar yr Israeliaid ac yn galw arnynt i anfon dyn i ymladd yn ei erbyn.

Roedd ofn mawr ar yr Israeliaid. Dechreuodd Dafydd ofyn cwestiynau.

Cafodd syndod pan glywodd nad oedd neb yn barod i ymladd yn erbyn Goliath.

C Rhowch ✓ neu X yn y blwch wrth ymyl pob brawddeg i ddangos a yw'n gywir neu'n anghywir.

Clywodd Dafydd Goliath yn gweiddi ar yr Israeliaid.

Cynigiodd un o frodyr Dafydd ymladd yn erbyn Goliath.

Roedd ofn mawr ar yr holl bobl.

Penderfynodd Dafydd fynd yn ôl at ei ddefaid.

8

C Lliwiwch y llun o Goliath a geiriau Dafydd.

“Pwy yw'r Philistiad hwn, ei fod yn herio lluoedd

Y DUW BYW?”

Pan glywodd Saul, brenin yr Israeliaid, eiriau Dafydd, gofynnodd am iddo gael ei ddwyn ato.

4



DARLLENWCH
I Samuel
17: 32-51



ADNOD
ALLWEDDOL
I Samuel 17: 47

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.

Stori 3 Trechu Goliath

Roedd bachgen ifanc yn awyddus i ymladd yn erbyn y cawr Goliath! Allwch chi ddychmygu beth fyddai'r papurau newydd wedi'i ddweud? Pan glywodd y Brenin Saul beth roedd Dafydd yn ei ddweud, anfonodd amdano.



C Gosodwch y llythrennau a, e, i, o neu u, yn y frawddeg ganlynol er mwyn canfod beth ddywedodd Dafydd wrth Saul.

“F__ yml__dd__f __ yn __rb__n G__l__th.”

Credai Saul fod Dafydd yn rhy ifanc i ymladd yn erbyn Goliath. Roedd Dafydd wedi hen arfer â pherygl. Adroddodd wrth Saul am ei fywyd fel bugail. Roedd Duw wedi ei helpu i warchod ei ddefaid rhag anifeiliaid gwyllt. Dywedodd, “Rwyf wedi lladd llew ac arth, ac fe wnaif yr un peth i Goliath.”

C Pwy oedd wedi gwared Dafydd rhag llew ac arth? Tanlinellwch yr ateb cywir.

Duw

Saul

Goliath

Yna, dywedodd Saul, “Dos, a bydded yr Arglwydd gyda thi.” Awgrymodd y dylai Dafydd wisgo arfwisg y brenin, ond roedd honno'n llawer rhy fawr iddo. Tynnodd Dafydd yr arfwisg oddi amdano. Ar ôl dewis pum carreg lefn o'r nant, cydiodd Dafydd yn ei ffon fagl ac aeth i ymladd yn erbyn Goliath.




C Lliwiwch yr arf yr aeth Dafydd gydag ef i ymladd Goliath.

Tarian

Helmed

Ffon Dafl

Cleddyf



5

2


2



Pan welodd Goliath y bachgen Dafydd yn dod tuag ato, nid oedd yn credu ei fod mewn unrhyw berygl.

Dywedodd Dafydd, "Yr wyf fi'n dod atat ti yn enw Arglwydd y Lluoedd."

Pan oedd Goliath yn dal i gerdded tuag ato, gosododd Dafydd un o'r cerrig yn ei ffon dafl a'i hyrddio tuag ato. Trawodd y garreg Goliath yn ei dalcen a syrthiodd y cawr ar ei wyneb i'r llawr. Rhedodd Dafydd a chymerodd gleddyf y cawr a'i ladd.



C Gosodwch yr atebion yn y Grid Geiriau:-

1. Pwy helpodd Dafydd?
(Yr A _____)
2. Cododd Dafydd 5 _____ o'r nant?
3. Pwy laddodd Goliath?
4. Defnyddiodd Dafydd 1 garreg a Ff _____?

Llwyddodd Dafydd i ladd Goliath oherwydd ei fod yn ymddiried yn Nuw. Does dim rhaid i ni ymladd yn erbyn cewri, ond mae gennym ninnau hefyd elyn.


C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob llun i ddarganfod pwy yw ein gelyn.



Y Diafol yw'r enw arall am Satan. Mae ef am i ni wneud pethau drwg. Pan fu farw'r Arglwydd Iesu ar y groes, trechodd Ef Satan. Bydd Duw yn ein helpu i ennill y frwydr yn erbyn Satan pan fyddwn yn credu yn yr Arglwydd Iesu Grist.




DARLLENWCH

I Samuel
18: 1-16ADNOD
ALLWEDDOL
I Samuel 18: 14Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon.**Stori 4** Byw gyda Saul

Roedd Dafydd yn arwr pan laddodd Goliath!
Roedd Saul yn awyddus i Dafydd aros gydag ef yn hytrach na mynd yn ôl i Fethlehem. Roedd Dafydd yn filwr penigamp a chyn hir cafodd ei ddyrchafu'n gapten yn y fyddin.
Daeth Jonathan, mab Saul, yn ffrind pennaf i Dafydd.
Parhaodd yn ffyddlon i Dafydd drwy ei oes hyd yn oed pan aeth pethau'n anodd. Mae'n dda cael ffrindiau sy'n ddigyfnewid.

C Gosodwch yr atebion yn y Grid Geiriau.



1. Roedd hwn yn frenin.
2. Mab Saul oedd hwn.
3. Roedd hwn yn arwr.
4. Lladdwyd hwn gan Dafydd.

Fyddwch chi weithiau'n teimlo'n eiddigeddus oherwydd bod rhywun arall yn gallu gwneud rhywbeth yn well na chi? Gall bod yn eiddigeddus eich arwain i ymddwyn mewn ffordd gwbl anghywir.

Un dydd, clywodd Saul griw o wragedd yn canu:

Lladdodd Saul ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiynau.

Dechreuodd Saul deimlo'n eiddigeddus pan glywodd y gwagedd yn canu. Teimlai mor eiddigeddus nes ei fod am ladd Dafydd. Drannoeth, roedd Dafydd yn canu ei delyn. Clywodd Saul ef a thaflodd ei waywffon ato, ond symudodd Dafydd o'r ffordd yn gyflym. Ceisiodd ei ladd eto, dro arall, yn yr un modd.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob llun i ddarganfod pa offeryn roedd Dafydd yn ei ganu.



3

C Gosodwch y geiriau canlynol yn y manau cywir yn y brawddegau isod.

lladd filoedd eiddigeddus fyrddiynau ddwywaith

Roedd Saul yn _____ oherwydd bod y gwagedd yn canu
“Lladdodd Saul ei _____ a Dafydd ei _____.”

Roedd Saul eisiau _____ Dafydd.

Taflodd Saul ei waywffon _____ at Dafydd.

5

Dechreuodd Saul ofni oherwydd gwelai fod Duw gyda Dafydd. Gosododd Dafydd yn gapten ar 1000 o filwyr, ac fe'i anfonodd i ffwrdd i ryfel. Arweiniodd Dafydd ei ddynion mewn brwydr a bu'n llwyddiannus. O ganlyniad, daeth yn fwy poblogaidd fyth gyda'r bobl. Aeth Saul hyd yn oed yn fwy eiddigeddus ac ofnus ohono.

C Lliwiwch y llythrennau sydd â dot i ddarganfod pwy oedd yn cynorthwyo ac yn amddiffyn Dafydd.

AGBIYCH
ID•O•UTWI
UHIBSTYI

2

Roedd Dafydd yn ymddiried yn Nuw, a chafodd ei amddiffyn gan Dduw pan oedd Saul yn ceisio ei ladd. Os ydym ni'n Gristnogion, rydym yn gwybod y bydd Duw yn gofalu amdanom ar bob adeg.

C Lliwiwch a dysgwch y rhan hon o'r Adnod Allweddol.

“Yr oedd yr Arglwydd
gydag ef.”

2

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddwr y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH % 01766 819120